ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales
Datganiad Ystadegol Cyntaf
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Cyflawniad, Awst 2022 i Orffennaf 2023


14 Mawrth 2024
SFR 7/2024

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â deilliannau ar gyfer addysg gyffredinol ac addysg alwedigaethol yn y chweched dosbarth ac mewn colegau. Mae'n edrych ar y cynnydd ar draws yr holl gymwysterau a gymerwyd gan ddysgwr fel rhan o'i raglen, yn ogystal â'r graddau a gyflawnodd.

Mae ystadegau ar brentisiaethau a dysgu oedolion yn yr adroddiad Mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r negeseuon yn y data. Mae'r tablau cysylltiedig yn cynnwys y dadansoddiadau llawn ar gyfer pob mesur yn ôl yr holl nodweddion yn yr erthygl hon, a hefyd yn ôl darparwr, awdurdod lleol ac amhariadau (ar gyfer colegau).

**Ffigur 1.1: Crynodeb o'r mesurau cyflawni yn ôl blwyddyn academaidd, Awst 2021 i Orffennaf 2023**




Disgrifiad o Ffigur 1.1: Mae'r siart bar yn dangos bod 75% o ddysgwyr Safon Uwch wedi cwblhau eu rhaglen dwy flynedd yn y flwyddyn academaidd 2022/23. Cwblhaodd 86% o ddysgwyr galwedigaethol eu rhaglenni. Cwblhaodd 67% o ddysgwyr Bagloriaeth Cymru y cymhwyster.

## Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn rhan o gyfres o dri mesur perfformiad cyson ar gyfer colegau a'r chweched dosbarth.

Y mesurau yw Cyflawniad, Gwerth Ychwanegol, a Chyrchfannau.

Dylid deall deilliannau dysgwyr yng nghyd-destun y mesurau eraill.

Ffynonellau:
Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR),

Casglu data ôl-16, Cronfa Ddata Arholiadau Cymraeg (WED).

## Yn y datganiad hwn

Prif Bwyntiau 2
Addysg gyffredinol (Safon Uwch) 4
Addysg alwedigaethol 7
Bagloriaeth Cymru 10
Rhywedd 13
Oedran 14
Amddifadedd 15
Cefndir ethnig 16
Geirfa 20
Nodiadau 22
Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg 27

Ystadegydd: Thomas Rose ~ 0300 025 9895 ~ ystadegauaddysgol16@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau gan y cyhoedd: 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

# 1. Prif Bwyntiau

## Addysg gyffredinol (Safon Uwch)

- Roedd y deilliannau o ran graddau yn fras hanner ffordd rhwng 2018/19 a 2021/22, fel y cynlluniwyd.
- Aeth llai o ddysgwyr ymlaen i'w hail flwyddyn Safon Uwch a chwblhaodd llai o ddysgwyr eu Safon Uwch o'i gymharu â 2021/22.
- Mae'n bosibl bod y gostyngiad yn nifer y dysgwyr ddechreuodd eu hail flwyddyn o Safon Uwch yn rhannol oherwydd y gostyngiad mewn graddau UG, gyda dysgwyr nad oeddent yn llwyddo i gael 3 lefel UG yn llawer llai tebygol o barhau.
- Aeth 52% o ddysgwyr UG benywaidd ymlaen i gael tair gradd C Safon Uwch, o'i gymharu â 42% o ddysgwyr gwrywaidd.
- Aeth 49% o ddysgwyr UG 16 oed ymlaen i gael tair gradd C Safon Uwch, o'i gymharu â 21% o ddysgwyr hŷn.
- Roedd dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol o gwblhau eu Safon Uwch ac yn llai tebygol o gael graddau uchel pe baent yn gwneud hynny.
- Crebachodd y bwlch mewn graddau ar sail amddifadedd yn 2022/23, ond ehangodd y bwlch o ran cyfraddau cwblhau.
- Roedd deilliannau Safon Uwch dysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig neu Ddu Cymreig yn is na grwpiau ethnig eraill, gan gynnwys gostyngiad mawr yn y nifer oedd yn eu cwblhau.
- Dechreuodd yr anghydraddoldeb o ran deilliannau i ddysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig neu Ddu Cymreig cyn addysg ôl-16 pan, o gymharu â dysgwyr â chymwysterau TGAU tebyg, llwyddodd dysgwyr o'r cefndiroedd hyn i gyflawni deilliannau uwch na'r cyfartaledd.
- Roedd y gwahaniaethau rhwng grwpiau ethnig yn lleihau yn gyffredinol ar gyfer dysgwyr addysg alwedigaethol a chyffredinol.

## Addysg alwedigaethol

- Mae deilliannau galwedigaethol yn gwella ers y gostyngiad adeg y pandemig coronafeirws (COVID-19), ond yn gyffredinol maent wedi aros yn is na'r lefelau cyn y pandemig.
- Gwelwyd llai o ddysgwyr galwedigaethol yn peidio â chwblhau eu rhaglenni oherwydd 'rhesymau personol', a mwy yn peidio â chwblhau oherwydd eu bod yn 'Methu'.
- Dirywiodd y deilliannau ar gyfer rhaglenni Mynediad at Addysg Uwch, yn wahanol i raglenni eraill.
- Roedd deilliannau dysgwyr galwedigaethol â phrofiadau o amddifadedd yn is na'r rhai na rhai pobl eraill, ond nid oedd y berthynas mor gryf â'r hyn welwyd mewn addysg gyffredinol.

## Bagloriaeth Cymru

- Gostyngodd deilliannau Bagloriaeth Cymru ar gyfer dysgwyr addysg gyffredinol, ond roeddent yn parhau i fod yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.
- Parhawyd i weld deilliannau is i ddysgwyr galwedigaethol na dysgwyr addysg gyffredinol, ond roedd y bwlch yn crebachu.

## 2. Addysg gyffredinol (Safon Uwch)


Mae'r mesurau hyn yn cwmpasu dysgwyr llawn amser a ddechreuodd astudio rhaglen o dair neu ragor safon UG (neu gyfwerth) yn eu blwyddyn gyntaf, a'r nifer a aeth ymlaen i gyflawni o leiaf tri chymhwyster Safon Uwch (neu gyfwerth) erbyn diwedd eu hail flwyddyn.

Cafodd arholiadau eu canslo yn ystod haf 2019/20, a 2020/21 oherwydd pandemig y Coronafeirws (COVID-19). Yn 2019/20, derbyniodd dysgwyr Safon Uwch y radd orau o’r graddau a aseswyd gan ganolfan neu radd safonol. Yn 2020/21, cawsant raddau a bennwyd gan ganolfan. Yn y ddwy flynedd honno, roedd y graddau a ddyfarnwyd yn tueddu i fod yn uwch na chyn y pandemig.

Roedd 2021/22 yn flwyddyn drosiannol i ddysgwyr. Cafodd dysgwyr ddewis ehangach o gwestiynau, a gosododd Cymwysterau Cymru y canlyniadau hanner ffordd yn fras rhwng 2018/19 a 2020/21.

Roedd rhywfaint o gymorth yn parhau i fod ar waith ar gyfer dysgwyr a safodd arholiadau yn 2022/23. Roedd y gefnogaeth hon ar ffurf gwybodaeth ymlaen llaw a dull cefnogol o bennu graddau. Gosododd Cymwysterau Cymru y canlyniadau ar lefel genedlaethol hanner ffordd yn fras rhwng deilliannau 2018/19 a 2021/22. Dylid ystyried y cyd-destun hwn wrth gymharu deilliannau.

**Ffigur 2.1: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl blwyddyn academaidd, 2017/18 i 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 2.1: Mae'r siart llinell yn dangos bod deilliannau ar gyfer Safon Uwch yn uwch na chyn y pandemig, ond yn is nag yn 2021/22.

[Nodyn 1] Ni chynhyrchwyd mesurau ar gyfer 2019/20 na 2020/21. Gweler Nodiadau.


Mae data i'w gweld yn Nhabl 1.1 o'r daenlen ategol

Roedd y graddau a gyflawnwyd gan ddysgwyr yn agos at hanner ffordd rhwng 2021/22 a 2018/19, gan adlewyrchu sut mae Cymwysterau Cymru yn gosod ffiniau graddau unigol. Fodd bynnag, gostyngodd cyfran y dysgwyr a gwblhaodd eu Safon Uwch hefyd.

Prif achos y cwymp oedd nad oedd dysgwyr yn parhau i'w hail flwyddyn ar ôl cwblhau eu blwyddyn UG. Gostyngodd y gyfradd cadw o 90% i 85%. Fodd bynnag, roedd hyn yn dal i fod yn uwch na'r gyfradd cadw cyn y pandemig o 81% yn 2018/19. Un rheswm posibl am hyn yw'r canlyniadau UG is wrth i ddysgwyr drosglwyddo yn ôl i sefyll arholiadau. Aeth 98% o’r rhai a lwyddodd i gael 3 lefel UG yn 2021/22 ymlaen i'w hail flwyddyn Safon Uwch yn 2022/23.

**Ffigur 2.2: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer rhaglenni addysg gyffredinol (Safon Uwch)**


Caiff canrannau yn y ffigur hwn eu mynegi fel canran dysgwyr UG ar ôl 8 wythnos




Disgrifiad o Ffigur 2.2: Mae'r diagram llif yn dangos taith y dysgwyr ar gyfer dysgwyr Safon Uwch llawn amser, a oedd yn cychwyn yn 2021/22 ac yn cwblhau eu cymwysterau Safon Uwch yn 2022/23. Roedd y cwymp mwyaf ar ddiwedd y flwyddyn UG, gydag 14% o'r dysgwyr UG ddim yn parhau â'u hail flwyddyn ar ôl 8 wythnos.

[Mae data i'w gweld yn Nhabl 1.2 o'r daenlen ategol]

**Ffigur 2.3: Deilliannau cyrsiau Safon Uwch ar gyfer y 15 Safon Uwch mwyaf poblogaidd yn ôl statws Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM), blwyddyn academaidd 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 2.3: Mae'r siart bar yn dangos, ymhlith y 15 Safon Uwch mwyaf poblogaidd, bod y 5 â'r gyfran uchaf o ddysgwyr yn cael A neu A* mewn Safon Uwch yn bynciau STEM.

[Nodyn 1] Mae'r diffiniad eang o STEM wedi'i ddefnyddio yma, sef meysydd pwnc y sectorau: 2: Gwyddoniaeth a Mathemateg, 4: Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu, 5: Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig, 1.1: Meddygaeth a deintyddiaeth, 2.2: Nyrsio a Phynciau a Galwedigaethau sy'n Gysylltiedig â Meddygaeth, 6.2: Ymarferwyr TGCh, ac 11.1: Daearyddiaeth.

Mae data i'w gweld yn Nhabl 4.1 o'r daenlen ategol

Aeth dros 4 o bob 10 dysgwr a ddechreuodd ail flwyddyn eu Safon Uwch Mathemateg ymlaen i gael A neu A*. Dim ond 2 o bob 10 dysgwr Safon Uwch Busnes gafodd A neu A*, a hyd yn oed llai o ddysgwyr mewn Astudiaethau Cyfryngau.

Parhaodd bron i 9 o bob 10 dysgwr a gwblhaodd UG Hanes astudio Safon Uwch Hanes yn eu hail flwyddyn. Roedd cyfraddau cadw uchel gan Lenyddiaeth Saesneg a Daearyddiaeth hefyd. Roedd gan y pynciau hyn, ynghyd ag Astudiaethau'r Cyfryngau, ganran uchel o ddysgwyr yn cael o leiaf C.

Gall pynciau gwahanol ddenu gwahanol fathau o ddysgwr, er enghraifft o wahanol gefndiroedd neu â lefelau gwahanol o lwyddiant blaenorol.

## 3. Rhaglenni galwedigaethol

Mae'r mesurau hyn yn cwmpasu dysgwyr llawn amser sy'n astudio rhaglenni â chymwysterau galwedigaethol yn bennaf, mewn sector neu faes pwnc penodol. Nid yw hyn yn cynnwys prentisiaethau.


Mae hyd y cymwysterau galwedigaethol hyn yn amrywio, felly dim ond cyflawniad dros gyfnod o flwyddyn y mae'r mesurau galwedigaethol yn ei ystyried. Mae llwyddiant mewn rhaglenni galwedigaethol yn cael ei fesur fel canran y prif gymwysterau a astudiwyd a oedd yn llwyddiannus.

Yn 2019/20 a 2020/21, cafodd rhai asesiadau eu canslo a'u disodli gan ddewisiadau amgen fel graddau a aseswyd gan athrawon, cafodd eraill eu haddasu ac roedd rhai wedi'u gohirio. Roedd deilliannau yn is ar y cyfan, ar wahân i raglenni lefel 3 (sy'n cyfateb i Safon Uwch).

Yn 2021/22, fe aeth asesiadau yn eu blaen, ond roedd cyrff dyfarnu'n gallu gwneud addasiadau i arholiadau ac asesiadau, er mwyn helpu i liniaru'r tarfu a gafwyd ar ddysgu oherwydd y pandemig. Roedd deilliannau pob rhaglen, gan gynnwys rhaglenni lefel 3, yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

Yn 2022/23, disgwyliwyd i gymwysterau galwedigaethol a oedd yn benodol i Gymru ystyried y dull a ddefnyddiwyd o ran TGAU a Safon Uwch. Fodd bynnag, cefnogodd Ofqual, yn Lloegr, ddychwelyd i asesiadau 2018/19, a effeithiodd ar ddysgwyr o Gymru oedd yn cymryd cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael yng Nghymru a Lloegr.

**Ffigur 3.1: Cyfraddau cwblhau a llwyddiant ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yn ôl lefel cymhwyster a blwyddyn academaidd, 2018/19 i 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 3.1: Mae'r siartiau llinell yn dangos bod deilliannau wedi gwella ar gyfer rhaglenni galwedigaethol ar bob lefel yn 2022/23, ac eithrio rhaglenni Mynediad i Addysg Uwch lle gwnaethant syrthio.

[Nodyn 1] Ni chynhyrchwyd mesurau ar gyfer 2019/20 na 2020/21. Gweler Nodiadau.

Mae data i'w gweld yn Nhabl 2.1 o'r daenlen ategol

Arhosodd deilliannau galwedigaethol yn is na 2018/19 ar gyfer pob lefel, ac eithrio lefel mynediad. Mae hyn yn wahaniaeth amlwg i raglenni addysg gyffredinol, lle'r oedd deilliannau'n parhau'n uwch na lefelau cyn y pandemig.


Roedd cynnydd yn nifer y dysgwyr yn cymryd rhaglenni lefel mynediad yn 2022/23. Sbardunwyd hyn gan gynnydd yn y rhaglenni Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), a allai fod o ganlyniad i ffoaduriaid o Wcráin yn cyrraedd Cymru o fis Chwefror 2022. Fodd bynnag, cododd deilliannau ar draws y rhan fwyaf o feysydd pwnc ar gyfer lefel mynediad, nid ESOL yn unig.

Yn wahanol i raglenni eraill, gwelodd rhaglenni Mynediad at Addysg Uwch ostyngiad mewn cyfraddau cwblhau a llwyddo. Nod rhaglenni mynediad yw paratoi pobl sydd heb gymwysterau traddodiadol ar gyfer astudio yn y brifysgol.

Roedd 7 o bob 10 dechreuwr ar raglenni Mynediad i Addysg Uwch mewn rhaglenni Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal. Gwelodd y rhaglenni hyn ostyngiad mewn deilliannau, ynghyd â'r Gwyddorau Cymdeithasol; a Busnes, Gweinyddiaeth a'r Gyfraith. Cododd y deilliannau ar gyfer yr ail faes pwnc mwyaf cyffredin mewn Mynediad i Addysg Uwch: Gwyddoniaeth a Mathemateg;

**Ffigur 3.2: Mesurau cwblhau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, blwyddyn academaidd 2022/23**


Caiff canrannau yn y ffigur hwn eu mynegi fel canran y dysgwyr galwedigaethol ar ôl 8 wythnos




Disgrifiad o Ffigur 3.2: Mae'r siart llif yn dangos cynnydd dysgwyr galwedigaethol drwy eu rhaglen. Gadawodd 1 o bob 9 dysgwr eu rhaglen alwedigaethol o fewn yr 8 wythnos gyntaf. O'r rhai a oedd heb adael yn yr 8 wythnos gyntaf, aeth 86% ymlaen i gwblhau eu rhaglen alwedigaethol.

[Mae data i'w gweld yn Nhabl 2.1 o'r daenlen ategol]


**Ffigur 3.3: Cyfradd lwyddo ar gyfer y prif gymwysterau a gymerwyd gan ddysgwyr mewn rhaglenni galwedigaethol, blwyddyn academaidd 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 3.3: Mae'r siart cylch yn dangos bod 78% o'r prif gymwysterau a gymerwyd fel rhan o raglenni galwedigaethol lawn amser wedi'u cyflawni'n llwyddiannus. Mae'n 4 pwynt canran yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

Mae data i'w gweld yn Nhabl 2.1 o'r daenlen ategol

**Ffigur 3.4: Rheswm y mae dysgwyr yn rhoi'r gorau i raglenni galwedigaethol mewn colegau heb eu cwblhau yn ôl blwyddyn academaidd, 2021/22 i 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 3.5: Mae'r siart bar yn dangos bod llai o ddysgwyr wedi peidio cwblhau eu rhaglen oherwydd "rhesymau personol" yn 2022/23 a dwywaith cymaint wedi peidio cwblhau eu rhaglen oherwydd "methu" o'i gymharu â 2021/22.

Mae data i'w gweld yn Nhabl 2.14 o'r daenlen ategol

Cafodd 1 o bob 11 o'r rhai na gwblhaodd eu cwrs yn 2022/23 eu cofnodi fel rhai oedd wedi "methu". Roedd hyn yn gynnydd mawr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, y rhesymau mwyaf dros beidio â chwblhau o hyd oedd "rhesymau personol" ac "wedi mynd i gyflogaeth."

# 4. Bagloriaeth Cymru

Cymhwyster i Gymru yn unig yw Bagloriaeth Cymru ac mae wedi'i gynllunio i gael ei astudio fel rhan o addysg gyffredinol neu raglenni galwedigaethol. Ei nod yw datblygu sgiliau sy'n ddefnyddiol ar gyfer addysg a chyflogaeth.


Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Fagloriaeth Cymru Uwch lefel 3.

Mae sawl rhan i Fagloriaeth Cymru lefel 3:

- Tystysgrif Her Sgiliau – cymhwyster â graddau yw hwn, sy'n cyfateb i Safon Uwch
- TGAU Mathemateg- rhifedd a Saesneg neu Gymraeg
- cefnogi cymwysterau Safon Uwch neu gymwysterau galwedigaethol

Mae angen i ddysgwyr gyflawni'r rhain i gyd i ennill y prif gymhwyster Bagloriaeth Cymru, er bod y Dystysgrif Her Sgiliau yn gymhwyster annibynnol hefyd.

**Ffigur 4.1: Mesurau cyflawniad ar gyfer Bagloriaeth Cymru Uwch yn ôl blwyddyn academaidd, 2018/19 i 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 4.1: Mae'r siart bar yn dangos bod deilliannau Bagloriaeth Cymru 2022/23 yn is na 2021/22 ond yn dal i fod yn uwch na chyn y pandemig yn 2018/19. Yr eithriad yw cyfradd cwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau 2022/23, a oedd yr un fath â 2018/19.


[Nodyn 1] Ni chynhyrchwyd mesurau ar gyfer 2019/20 na 2020/21. Gweler Nodiadau.

Mae data i'w gweld yn Nhabl 3.1 o'r daenlen ategol

Roedd 54% o ddysgwyr wedi pasio Bagloriaeth Cymru Uwch lefel 3 yn 2022/23, o'i gymharu â 57% yn 2021/22.

**Ffigur 4.2: Mesurau cyflawniad ar gyfer Bagloriaeth Cymru Uwch**

Caiff canrannau yn y ffigur hwn eu mynegi fel canran y dysgwyr ar ôl 8 wythnos





Disgrifiad o Ffigur 4.2: Mae'r siart llif yn dangos cynnydd dysgwyr drwy'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru, gan gynnwys eu cynnydd ar y cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau. Ni wnaeth y rhan fwyaf o ddysgwyr na basiodd Bagloriaeth Cymru gwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau.

[Mae data i'w gweld yn Nhabl 3.1 o'r daenlen ategol]

Ni basiodd bron 1 o bob 3 dysgwr a ddechreuodd Bagloriaeth Cymru yn y Dystysgrif Her Sgiliau. O'r 11,445 a basiodd y Dystysgrif Her Sgiliau, ni wnaeth 1,250 arall dderbyn Bagloriaeth Cymru. Mae hyn oherwydd nad oeddent wedi cwblhau'r cydrannau eraill yn llwyddiannus.

**Ffigur 4.3: Mesurau cyflawniad yn ôl math o raglen dysgwr ar gyfer Bagloriaeth Cymru Uwch a blwyddyn academaidd, 2021/22 a 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 4.3: Mae'r siart bar yn dangos y cafodd dysgwyr a oedd yn astudio rhaglenni addysg gyffredinol ddeilliannau uwch ym Magloriaeth Cymru na dysgwyr a oedd yn astudio rhaglenni galwedigaethol.

[Mae data i'w gweld yn Nhabl 3.1 o'r daenlen ategol]


Yn 2022/23, gostyngodd deilliannau Bagloriaeth Cymru lai ar gyfer dysgwyr galwedigaethol nag a wnaethant ar gyfer dysgwyr addysg gyffredinol. Mewn rhai achosion, cododd deilliannau ar gyfer dysgwyr galwedigaethol o'i gymharu â 2021/22.

Mae hyn yn gwrthdroi rhywfaint o'r patrwm ar ôl y pandemig lle roedd deilliannau ond yn cynyddu i ddysgwyr ar raglenni addysg gyffredinol.

Cyfradd basio Bagloriaeth Cymru ar gyfer dysgwyr galwedigaethol oedd 35%, o'i gymharu â 59% ar gyfer dysgwyr addysg gyffredinol.

## 5. Rhywedd

**Ffigur 5.1: Mesurau cyflawniad yn ôl rhywedd, blwyddyn academaidd 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 5.1: Mae'r siart bar yn dangos deilliannau uwch i ferched na bechgyn mewn rhaglenni addysg gyffredinol, ac eithrio canran y dysgwyr sy'n cael 3 A*. Roedd gan fechgyn gyfradd cwblhau uwch na merched mewn rhaglenni galwedigaethol.

Mae data i'w weld yn Nhabl 1.2, 2.2, 3.2 o'r daenlen ategol

Aeth 76% o ferched a oedd 8 wythnos i mewn i'w lefelau UG ymlaen i gwblhau eu Safon Uwch, o'i gymharu â 75% o fechgyn. Roedd dysgwyr benywaidd yn llai tebygol o gwblhau eu blwyddyn UG ond roeddent yn fwy tebygol o barhau i'w hail flwyddyn pe baent yn gwneud hynny, gan arwain at gyfradd cwblhau uwch yn gyffredinol.


Aeth 52% o ddysgwyr UG benywaidd ymlaen i gael tair gradd C Safon Uwch, o'i gymharu â 42% o ddysgwyr gwrywaidd.

Ehangodd y gwahaniaeth mewn deilliannau o ran graddau cyffredinol ar gyfer cyflawnwyr yn 2022/23 o'i gymharu â 2021/22.

Roedd dysgwyr gwrywaidd 2 bwynt canran yn fwy tebygol o gyflawni eu rhaglen alwedigaethol na dysgwyr benywaidd yn 2022/23, yr un fath â 2021/22. Fodd bynnag, diflannodd y bwlch rhwng y rhywiau o ran cyfradd llwyddiant.

## 6. Oedran

### Ffigur 6.1: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl oedran ar ddechrau'r flwyddyn gyntaf, blwyddyn academaidd 2022/23




Disgrifiad o Ffigur 6.1: Mae'r siart bar yn dangos bod gan ddysgwyr 16 oed ar ddechrau eu Safon Uwch gyfraddau cyflawniad llawer uwch na dysgwyr hŷn ar raglenni addysg gyffredinol llawn amser.

[Mae data i'w gweld yn Nhabl 1.2 o'r daenlen ategol]

Aeth 46% o ddysgwyr UG 17 oed neu'n hŷn ymlaen i gwblhau eu rhaglen Safon Uwch lawn, o'i gymharu â 77% o bobl ifanc 16 oed.

Aeth 49% o ddysgwyr UG 16 oed ymlaen i gael tair gradd C Safon Uwch, o'i gymharu â 21% o ddysgwyr hŷn.

Roedd y bwlch o ran deilliannau yn debyg i'r llynedd ac fe arhosodd yn ehangach na chyn y pandemig.


Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yng Nghymru yn dechrau eu harholiadau Safon Uwch yn 16 oed. Efallai fod dysgwyr hŷn wedi dilyn llwybr addysg llai traddodiadol, neu efallai eu bod yn ail-wneud cymwysterau Safon Uwch.

## 7. Amddifadedd

Mae dau fesur o amddifadedd yn y datganiad hwn. Y cyntaf yw amddifadedd yr ardal fechan y mae dysgwr yn byw ynddi. Nid yw'n seiliedig ar amddifadedd y dysgwr yn benodol. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt yn ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd difreintiedig ac i'r gwrthwyneb. Daw hyn o brif fynegai [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019]

Yr ail yw mesur procsi o amddifadedd ar lefel dysgwr: a oedd dysgwr yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim ar unrhyw adeg yn yr ysgol uwchradd.

**Ffigur 7.1: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl amddifadedd cymdogaeth leol y dysgwr a blwyddyn academaidd, 2021/22 a 2022/23**




1= Y 10% o'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig, 10 = lleiaf difreintiedig

Disgrifiad o Ffigur 7.1: Mae'r graff gwasgariad yn dangos po fwyaf difreintiedig oedd yr ardal yr oedd dysgwyr yn byw ynddi, po isaf eu deilliannau. Ehangodd y bwlch o ran cwblhau Safon Uwch yn gyffredinol yn 2022/23.

[Mae data i'w gweld yn Nhabl 1.4 o'r daenlen ategol]

Yn 2022/23, yn y 10% o gymdogaethau mwyaf difreintiedig, dim ond 64% o ddysgwyr UG aeth ymlaen i gwblhau eu Safon Uwch. Yn y 10% o gymdogaethau lleiaf difreintiedig, cwblhaodd 85% o ddysgwyr UG eu Safon Uwch. Roedd y bwlch 4 pwynt yn ehangach nag yn 2021/22.


Mae'r rhan fwyaf o'r bwlch yn deillio o ddysgwyr mewn ardaloedd difreintiedig nad ydynt yn parhau i ail flwyddyn Safon Uwch. Dim ond 76% oedd y gyfradd cadw ar gyfer dysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, o'i gymharu â 91% ar gyfer dysgwyr yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Roedd dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig hefyd yn llai tebygol o gwblhau eu lefelau UG yn y lle cyntaf.

I'r rhai a gwblhaodd eu Safon Uwch, roedd y bwlch o ran graddau yn crebachu.

Mae'n bosibl bod y culhau hwn yn y bwlch o ran graddau'r cyflawnwyr yn gysylltiedig â'r bwlch sy'n ehangu o ran parhau i astudio. Roedd dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig â graddau UG isel yn arbennig o debygol o beidio â mynd ymlaen i'r ail flwyddyn. Roedd 93% o'r rhai o'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig na wnaeth barhau heb gael tair lefel UG.

Gwelwyd bwlch hefyd rhwng dysgwyr a oedd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol uwchradd, a'r rhai nad oeddent wedi bod yn gymwys o gwbl.

**Ffigur 7.2: Cyfradd llwyddiant rhaglenni galwedigaethol yn ôl a oedd y dysgwr erioed yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn yr ysgol uwchradd, blwyddyn academaidd 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 7.2: Mae'r siart bar yn dangos bod gan ddysgwyr a oedd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol uwchradd gyfradd llwyddiant is mewn rhaglenni galwedigaethol na dysgwyr nad oeddent wedi bod yn gymwys o gwbl. Roedd hyn yn wir am bob lefel ac eithrio lefel mynediad, lle nad oedd gwahaniaeth.


Mae data i'w gweld yn Nhabl 2.10 o'r daenlen ategol

Nid oedd y cysylltiad rhwng amddifadedd a chyflawniad mor gryf mewn rhaglenni galwedigaethol ag ydyw mewn addysg gyffredinol. Cyflawnodd 75% o ddysgwyr a oedd yn gymwys ar ryw adeg i gael prydau ysgol am ddim eu cymwysterau galwedigaethol, o'i gymharu ag 80% nad oeddent wedi bod yn gymwys o gwbl.

Nid oedd modd adnabod statws prydau ysgol am ddim 17% o ddysgwyr galwedigaethol yn yr ysgol uwchradd. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr na aethant i'r ysgol uwchradd yng Nghymru, a dysgwyr a adawodd yr ysgol uwchradd cyn 2010/11, gan nad oes modd cyfateb cofnodion yn y set ddata a ddefnyddir ar gyfer hyn yn bellach na hynny. Roedd bwlch amddifadedd hefyd wrth edrych ar y mesur amddifadedd sy'n seiliedig ar ardal, lle'r oedd llai o elfennau anhysbys.

## 8. Cefndir ethnig

**Ffigur 8.1: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer addysg gyffredinol ar lefel Safon Uwch yn ôl cefndir ethnig y dysgwr a blwyddyn academaidd, 2021/22 i 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 8.1: Mae'r siart bar yn dangos bod deilliannau dysgwyr o bob cefndir wedi gostwng yn 2022/23. Dysgwyr o grwpiau ethnig Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig oedd y rhai mwyaf tebygol o gyflawni 3 Safon Uwch a'r rhai mwyaf tebygol o gael o leiaf dri C, ac o leiaf dri A. Fodd bynnag, roedd dysgwyr o grwpiau ethnig eraill yr un mor debygol o gael o leiaf dri A â'r rhai o grwpiau Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig.

Mae data i'w gweld yn Nhabl 1.8 o'r daenlen ategol


Roedd canlyniadau Safon Uwch yn fwy tebyg ar draws grwpiau ethnig yn 2022/23 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gostyngodd y gyfradd cwblhau ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig a Du Cymreig yn sylweddol yn 2022/23. Gostyngodd y gyfradd gwblhau o 82% yn 2021/22 (uwchlaw'r cyfartaledd) i 66% yn 2022/23 (is nag unrhyw grŵp arall).

Ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig, Du Cymreig a gwblhaodd eu Safon Uwch, crebachodd y bwlch o ran deilliannau graddau ychydig o'i gymharu â 2021/22.

Mae'r bwlch o ran deilliannau i ddysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig, Du Cymreig wedi ymddangos i raddau helaeth ers y pandemig. Mae data cyrhaeddiad blaenorol yn awgrymu y gallai'r mater ddechrau cyn addysg ôl-16.

**Ffigur 8.2: Canran y dysgwyr UG a aeth ymlaen i gael o leiaf tair gradd C Safon Uwch yn ôl nifer y graddau C a gyflawnwyd mewn TGAU a chefndir ethnig, blwyddyn academaidd 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 8.2: Mae'r siart bar yn dangos bod dysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig, Du Cymreig yn fwy tebygol o gael tair gradd C ar Safon Uwch na dysgwyr eraill a oedd wedi cyflawni'r un nifer o raddau C ar lefel TGAU. Yr eithriadau oedd dysgwyr a gafodd 11 neu fwy o raddau C ar lefel TGAU.


[Nodyn 1] Mae rhai categorïau â niferoedd isel iawn wedi'u heithrio er mwyn osgoi datgelu.

[Mae data i'w gweld yn Nhabl 1.19 o'r daenlen ategol]

Roedd gan ddysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig, Du Cymreig raddau TGAU is wrth ddechrau Safon Uwch na dysgwyr eraill. Roedd gan 45% o ddysgwyr Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig, Du Cymreig lai na 9 C ar lefel TGAU. Mae hyn yn fwy na dwbl cyfradd dysgwyr eraill. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod â phrofiad o amddifadedd, gyda chyfraddau uwch o ddysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a dysgwyr yn byw mewn cymdogaethau difreintiedig.

Wrth gymharu dysgwyr â nifer debyg o raddau C ar lefel TGAU, llwyddodd dysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig, Du Cymreig i gyflawni gwell deilliannau Safon Uwch na dysgwyr o gefndiroedd eraill. Mae hyn yn wahanol i anghydraddoldebau eraill a amlygwyd yn yr adroddiad hwn, lle parhaodd tueddiadau ar y cyfan, hyd yn oed ar draws lefelau tebyg o gyrhaeddiad blaenorol.

**Ffigur 8.3: Cyfradd lwyddo ar gyfer addysg alwedigaethol yn ôl cefndir ethnig manwl y dysgwr a blwyddyn academaidd, ac eithrio Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, 2021/22 i 2022/23**




Disgrifiad o Ffigur 8.3: Mae'r siart bar yn dangos bod ystod o ddeilliannau ar draws cefndiroedd ethnig yn gulach yn 2022/23 na'r flwyddyn flaenorol.

[Nodyn 1] Mae rhai categorïau â niferoedd isel wedi'u heithrio er mwyn osgoi datgelu.

[Mae data i'w gweld yn Nhabl 2.9 o'r daenlen ategol](#)

Dysgwyr o gefndiroedd Unrhyw Gefndir Du Arall, Du Cymreig, Du Prydeinig neu Caribïaidd oedd â'r gyfradd lwyddo uchaf (87%) ar raglenni galwedigaethol yn 2022/23 (ac eithrio rhaglenni sy'n addysgu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill). Roedd hyn yn gynnydd o 21 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Y dysgwyr â'r gyfradd llwyddiant isaf oedd dysgwyr o gefndiroedd Gwyn a Du Caribïaidd, ond roedd hynny'n dal i gynrychioli cynnydd o 69% yn 2021/22 i 75% yn 2022/23.

Ymhlith y dysgwyr oedd yn dilyn rhaglenni Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, cynyddodd y gyfradd llwyddiant o 79% i 93% ar gyfer dysgwyr o Unrhyw Gefndir Gwyn Arall. Cododd nifer y dysgwyr oedd yn dilyn y rhaglenni hyn o 85 yn 2021/22 i 345 yn 2022/23. Efallai bod y cynnydd oherwydd dyfodiad ffoaduriaid o Wcráin a gafodd gynnig hyfforddiant Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill.

## Geirfa

### Blwyddyn academaidd

Ar gyfer ysgolion, mae'r flwyddyn academaidd rhwng 1 Medi a 31 Awst. Ar gyfer colegau, mae'r flwyddyn academaidd rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.

### Oedran

Cyfrifir oedran dysgwr o 31 Awst ar ddechrau ei flwyddyn UG ar gyfer addysg gyffredinol, ac ar ddechrau'r flwyddyn a enwir ar gyfer addysg alwedigaethol.

### UG, A2 a Safon Uwch

Mae cymwysterau Safon Uwch yn cael eu hastudio dros 2 flynedd gan amlaf. Fel rheol, mae dysgwr yn cymryd cymwysterau Uwch Gyfrannol TAG (UG) yn y flwyddyn gyntaf, ac yna gallant fynd ymlaen i gymryd y cymhwyster TAG Uwch cyffredinol yn yr ail flwyddyn. Cyfeirir at yr ail flwyddyn weithiau fel y flwyddyn A2.

Bydd rhai dysgwyr yn cymryd cymwysterau Safon Uwch llinol, lle maent yn treulio dwy flynedd yn gweithio tuag at gymhwyster Safon Uwch heb gymryd TAG Uwch Gyfrannol.

### Colegau a chweched dosbarth ysgolion

Yn y datganiad hwn, ystyr 'colegau' yw sefydliadau addysg bellach, a elwir hefyd yn SABau. Mae rhai sefydliadau addysg bellach yn grŵp o sawl coleg. ‘Mae 'Ysgolion' neu 'Chweched dosbarth' yn cyfeirio at y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir.

Diffinnir Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant fel coleg. Mae Coleg Cymunedol y Dderwen yn chweched dosbarth ysgol.

### Cyrsiau

Mae cyrsiau yn gymwysterau unigol y mae dysgwr yn eu hastudio. Er enghraifft, Safon Uwch ffiseg.

### Cyfradd gwblhau

Y gyfradd gwblhau yw cyfran y rhaglenni neu'r gweithgareddau sydd wedi'u gorffen, p'un ai a gafodd y cymwysterau eu cyflawni ai peidio. Ewch i'r nodiadau am ragor o wybodaeth.

### Gadael yn gynnar

Caiff dysgwyr eu diffinio fel dysgwyr sy'n gadael yn gynnar os ydynt:

- yn gorffen eu rhaglen o fewn 8 wythnos i'w dyddiad cychwyn
- ac nad ydynt yn cwblhau'r rhaglen honno
- a bod hyd disgwyliedig y rhaglen yn 24 wythnos neu ragor

Mae dysgwyr sy'n gadael yn gynnar yn cael eu heithrio o'r mesurau.

### Cefndir ethnig

Cyflwynir categorïau ethnig yn ôl safonau wedi'u cysoni Swyddogaeth Dadansoddi'r Llywodraeth. Mae'r wybodaeth yn cael ei hadrodd gan y dysgwr ei hun.

## Prydau Ysgol Am Ddim

Mae dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn derbyn budd-daliadau/taliadau cymorth penodol, neu os ydynt ar gredyd cynhwysol. Dim ond dysgwyr sydd wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim i'w hawdurdod lleol a fydd yn cael eu cofnodi fel rhai cymwys.

Mae dysgwr yn cael ei ddiffinio yn yr adroddiad hwn fel "wedi bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim ar ryw adeg" os oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn yr ysgol uwchradd yng Nghymru. Os nad oedd yn gymwys mewn unrhyw flwyddyn o'r ysgol uwchradd yng Nghymru mae'n cael ei ddisgrifio fel "erioed wedi bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim'. Mae dysgwyr na ellid eu paru â chofnod ysgol uwchradd yng Nghymru yn cael eu categoreiddio'n anhysbys.

## Addysg gyffredinol

Mae addysg gyffredinol yn cyfeirio at raglen o ddysgu sy'n cynnwys cymysgedd o gymwysterau ar draws sawl maes pwnc. Ym maes dysgu ôl-16, Safon Uwch yw'r cymwysterau hyn yn aml, ond gall dysgwyr gymryd cymysgedd o gymwysterau galwedigaethol fel rhan o'u rhaglen addysg gyffredinol.

## Cymdogaeth leol

Ardal fechan a elwir yn Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) sy'n cynnwys cyfeiriad y dysgwr.

## Prif Gymwysterau

Dylai'r prif gymwysterau gymryd o leiaf 50% o'r Oriau Cyswllt dan Arweiniad ar gyfer rhaglen, a'r targed delfrydol yw 70%. Dylent fod yn gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi gan Cymwysterau Cymru. Y darparwr sy'n adrodd a yw cymhwyster yn brif gymhwyster ai peidio.

## Rhaglen

Mae rhaglen yn gasgliad o gymwysterau y bydd dysgwr yn ei hastudio. Er enghraifft, gall rhaglen Safon Uwch gynnwys tri chymhwyster Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.

Gall enghraifft o raglen alwedigaethol fod yn 'Gwaith Coed a Saernïaeth Lefel 1', sy'n cynnwys astudio 'Diploma mewn Gwaith Coed a Saernïaeth' fel y prif gymhwyster, ynghyd ag unrhyw gymwysterau ategol, fel mathemateg cyn TGAU.

## Lefelau cymwysterau

Mae lefelau cymwysterau yn amrywio o lefel mynediad i lefel 8.

Mae cymhwyster lefel 1 gyfwerth â D i G ar lefel TGAU, mae cymhwyster lefel 2 gyfwerth ag A* i C ar lefel TGAU, ac mae cymhwyster lefel 3 gyfwerth ag UG neu Safon Uwch.

Mae gan y Fframwaith Credydau a Chymwysterau: canllaw i ddysgwyr ddiagram yn amlinellu lefelau'r gwahanol gymwysterau.

### Meysydd pwnc sector

Mae meysydd pwnc sector yn seiliedig ar y 15 maes dysgu haen gyntaf sy'n cael eu dosbarthu gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual). Gallant gyfeirio at bwnc rhaglen alwedigaethol gyffredinol, neu gyrsiau unigol.

### Cyfradd lwyddo

Y gyfradd lwyddo yw cyfran y prif gymwysterau a ddilynwyd a gyflawnwyd. Ewch i'r nodiadau am ragor o wybodaeth.

### Addysg alwedigaethol

Mae addysg alwedigaethol yn gyfres o weithgareddau dysgu y mae dysgwr yn eu cymryd gyda'r nod o'u paratoi ar gyfer maes gwaith penodol. Mae BTECs yn fath nodweddiadol o gymhwyster galwedigaethol a gymerir fel rhan o raglen alwedigaethol.

Yn y datganiad hwn nid yw addysg alwedigaethol yn cynnwys prentisiaethau na Twf Swyddi Cymru+.

## Nodiadau

Cyhoeddir tablau ochr yn ochr â'r datganiad hwn sy'n cynnwys yr holl ddata a gyflwynir yma.

### Ffynonellau data

Dyma'r prif ffynonellau data a ddefnyddir yn y datganiad hwn:

a. Casglu Data Ôl-16: bob mis Hydref, mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir sydd â chweched dosbarth ac ysgolion canol sydd â disgyblion ym mlynyddoedd 12, 13 a/neu 14, roi gwybod am yr holl raglenni a gweithgareddau dysgu a wnaed gan y disgyblion yn y flwyddyn academaidd flaenorol.

b. Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR): mae'n cynnwys data am addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion. Caiff ei gasglu ar sail 'dreigl' drwy gydol y flwyddyn gyda chyfnodau rheolaidd o rewi ystadegau. Dyma'r ffynhonnell swyddogol o ystadegau ar ddysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach (colegau) yng Nghymru.

c. Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED): mae'n cynnwys data ar niferoedd sy'n sefyll arholiadau a deilliannau a gasglwyd gan nifer o sefydliadau dyfarnu.

Daw'r holl ddata ar gyfer sefydliadau addysg bellach o LLWR. Ar gyfer ysgolion, mae data dysgwyr yn dod o'r broses casglu data Ôl-16, ac mae data cyrhaeddiad cymwysterau yn cael eu cymryd drwy baru dysgwyr â WED.

### Rhaglenni addysg gyffredinol

Dysgwyr llawn amser a oedd wedi cofrestru ar raglenni dysgu lefel UG yn y flwyddyn academaidd flaenorol yw'r cohort sylfaenol ar gyfer mesurau rhaglenni addysg gyffredinol. Yna mae'r dysgwyr sy'n cwblhau eu rhaglenni UG yn cael eu paru â dysgwyr sy'n dechrau rhaglen A2 yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae cyflawniad y dysgwr dros y ddwy flynedd lawn yn cael ei gymryd i gyfrifo a oedd y dysgwr wedi cyflawni tri chymhwyster Safon Uwch (neu gyfwerth) ar raddau penodol.

Dim ond y cymwysterau hynny sy'n cael eu cymeradwyo neu eu dynodi i'w defnyddio yng Nghymru sy'n cael eu cynnwys yn y mesurau cyflawniad. Mae arholiad yn cael ei ddiystyru pan fydd dysgwr yn cyflawni gradd uwch neu gymhwyster lefel uwch yn yr un grŵp o bynciau. Os yw cymhwyster yn cael ei ddiystyru, nid yw'n cyfrif tuag at yr ystadegau a gyhoeddir yn y datganiad hwn. Mae cymwysterau tebyg o ran maint a gwerth i Safon Uwch yn cael eu cyfrif tuag at y mesur cyflawniad ar gyfer addysg gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys diplomâu atodol BTEC a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch, er enghraifft.

### Rhaglenni galwedigaethol

Y cohort sylfaenol ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yw dysgwyr llawn amser ar raglenni galwedigaethol a ddaeth i ben yn y flwyddyn academaidd bresennol. Mae hyn i gyfrif am hyd amrywiol rhaglenni galwedigaethol.

Mae darparwyr yn adrodd pa gymwysterau mewn rhaglen dysgwr sy'n cael eu hystyried yn brif gymwysterau. Gall hyn fod yn wahanol yn dibynnu ar y dysgwr. Dim ond cymwysterau Mynediad i

Addysg Uwch a chymwysterau sydd wedi eu cymeradwyo neu eu dynodi i'w defnyddio yng Nghymru sydd wedi'u cynnwys yn y mesur.

Mae'r gyfradd lwyddo yn cael ei chyfrifo wedyn fel nifer y prif gymwysterau a gyflawnwyd, wedi'i rannu â nifer y prif gymwysterau a wnaed. Gall dysgwr gael sawl prif gymhwyster mewn un rhaglen. Mae Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch wedi'i chynnwys.

### Dysgwyr nad ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad

Nid yw dysgwyr ar brentisiaethau a dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg oedolion a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn y mesurau. Maent yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith ac adroddiad dysgu oedolion .

Nid yw dysgwyr ar Brentisiaethau Iau, rhaglenni Sgiliau Dysgwyr Annibynnol, rhaglenni Arloesi, y rhai sy'n defnyddio Cyfrifon Dysgu Personol na'r rhai a fu farw yn ystod eu dysgu wedi'u cynnwys yn y mesurau chwaith.

### Bagloriaeth Cymru Lefel 3 a Thystysgrif Her Sgiliau

Y cohort sylfaenol yw dysgwyr sy'n dechrau Bagloriaeth Cymru Lefel 3 yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Yna mae'r dysgwyr yn cael eu paru ag ail ran Bagloriaeth Cymru a Thystysgrif Her Sgiliau yn naill ai'r flwyddyn academaidd bresennol neu'r flwyddyn academaidd flaenorol.

### Atal mesurau perfformiad yn 2019/10 a 2021/22

Ni chynhyrchwyd y mesurau perfformiad safonol ym mlynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21 oherwydd y tarfu a achoswyd gan y pandemig COVID-19. Yn hytrach, cynhyrchwyd adroddiadau arbennig ynghylch Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws.

Ni ellir cymharu'r ystadegau hynny â'r adroddiad hwn.

### Dysgwyr sy'n gwneud sawl rhaglen ddysgu gyda'r un darparwr

Pan fo dysgwr yn gwneud mwy nag un rhaglen addysg gyffredinol neu raglen alwedigaethol gyda'r un darparwr yn ystod blwyddyn academaidd, y rhaglen ddysgu ddiweddaraf a wneir sy'n cael ei chyfrif yn y mesurau perfformiad (er enghraifft, newid o raglen â phedair lefel UG i raglen â thair lefel UG). Pe bai dysgwr yn dilyn rhaglen alwedigaethol a rhaglen addysg gyffredinol yn yr un flwyddyn, yna bydd y dysgwr hwnnw'n ymddangos ym mhob mesur oni bai ei fod yn drosglwyddiad dilys.

### Trosglwyddiadau

O 2022/23, ni fydd dysgwyr sy'n cofrestru ar raglen ddysgu ac yna'n trosglwyddo i raglen arall yn cael eu cynnwys yn y mesurau ar gyfer eu rhaglen gyntaf os yw'r canlynol yn berthnasol:

- os gellir adnabod y rhaglen y maent yn trosglwyddo iddi
- os yw'r rhaglen yn yr un flwyddyn academaidd
- os yw'r rhaglen yn un llawn amser neu'n un dysgu yn y gwaith

- ac os yw’r dysgwr wedi trosglwyddo i raglen ar unrhyw lefel o fewn yr 8 wythnos gyntaf, neu drosglwyddo ar ôl yr 8 wythnos gyntaf i raglen ar yr un lefel neu lefel uwch
- os oedd y trosglwyddiad i ddarparwr arall, rhaid iddo ddigwydd o fewn 21 diwrnod

Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd trosglwyddiadau i ddarparwyr eraill yn cael eu trin fel rhai nad oeddent wedi'u cwblhau. Roedd trosglwyddiadau o fewn yr un darparwr yn cael eu cyfrif fel rhai nad oeddent yn cael eu cwblhau os oedd y trosglwyddiad i lefel wahanol, neu rhwng addysg gyffredinol a galwedigaethol.

Cafodd y newidiadau eu profi ar fesurau 2021/22. Ar gyfer mesurau rhaglenni addysg gyffredinol, byddai hyn wedi arwain at eithrio 75 o gofnodion ychwanegol allan o 16,925. Byddai'r gyfradd gadael yn gynnar yn newid o 3% i 2%, a chanran y dysgwyr sy'n cyflawni tair gradd C yn newid o 58% i 59%. Roedd yr holl gyfraddau eraill yn ddigyfnewid.

Ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, byddai'r newidiadau wedi arwain at eithrio 765 o gofnodion ychwanegol allan o 35,950. Byddai'r gyfradd gadael yn gynnar yn newid o 12% i 10%. Nid oedd unrhyw effaith ar y gyfradd cwblhau a'r gyfradd llwyddiant.

Nid yw ystadegau 2021/22 yn y datganiad hwn yn defnyddio'r fethodoleg trosglwyddo newydd.

### Talgrynnu

Mae'r holl ffigyrau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Nid yw niferoedd sy’n llai na 5 yn cael eu cynnwys. Mae canrannau'n cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Nid yw canrannau sy'n seiliedig ar enwadur o lai na 23 yn cael eu cynnwys.

Mae gwahaniaethau rhwng gwerthoedd yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio gwerthoedd heb eu talgrynnu, felly gall fod anghysondebau bach o'u cymharu â'r ffigurau wedi'u talgrynnu.

### Mesurau cyson

Mae'r mesurau perfformiad cyson yn cyfuno data o golegau a chweched dosbarth ysgolion. Yn y gorffennol, roedd mesurau ar wahân o ddeilliannau dysgwyr i bob un, er eu bod yn darparu llawer o'r un rhaglenni dysgu.

Y mesurau perfformiad cyson yw:

- Cyflawniad – lefel cwblhau, lefel cadw dysgwyr a chyrhaeddiad dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau Rhaglenni Safon Uwch, galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru
- Gwerth ychwanegol – y cynnydd a wnaed gan ddysgwyr uwchlaw yr hyn a fyddai fel arfer i'w ddisgwyl yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol a'u rhywedd
- Cyrchfannau – cyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i gyflogaeth a/neu ddysgu pellach (gan gynnwys addysg uwch).

Nod y mesurau yw trin colegau ac ysgolion yn gyson. Fodd bynnag, nid oes modd osgoi gwahaniaethau bach oherwydd bod data colegau ac ysgolion yn dod o ffynonellau ar wahân.

## Statws gwerth ychwanegol

Yn 2016 yn dilyn proses gaffael, penodwyd FFT Education Ltd yn gontractwr i ddatblygu'r mesur gwerth ychwanegol a chynhyrchu adroddiadau ar gyfer ysgolion a cholegau. Mae'r contract gwerth ychwanegol ôl-16 gyda FFT wedi dod i ben bellach, ac ni chyhoeddir unrhyw adroddiadau pellach o dan y fethodoleg hon. Rydym yn ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen â gwerth ychwanegol yn y dyfodol, ond oherwydd y tarfu ar asesiadau yn 2020 a 2021, y cynharaf y gallai model newydd fod ar waith fyddai 2024/25.

## Nodweddion gwarchodedig

Mae'r datganiad yn cynnwys ystadegau ar rywedd, oedran ac amddifadedd cymdogaeth leol dysgwr (LSOA) yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, cefndir ethnig y dysgwyr a chymhwystedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae’r daenlen ategol hefyd yn cynnwys gwybodaeth am amhariadau dysgwyr mewn colegau.

Ar gyfer dysgwyr yn y chweched dosbarth mewn ysgolion, daeth yr wybodaeth am gefndir ethnig o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).

Roedd dysgwr yn cael ei gategoreiddio fel "Yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim ar ryw adeg" os oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn yr ysgol uwchradd. Mae gwybodaeth am gymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei chyfrifo drwy baru dysgwyr â'u cofnod Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) drwy set ddata Matched Education.

Mae hyn yn golygu nad yw statws dysgwyr na chawsant eu haddysg yng Nghymru yn hysbys. Hefyd, i rai dysgwyr a symudodd i Gymru yn ystod ysgol uwchradd, bydd llai o wybodaeth. Ni fydd rhai dysgwyr yn gallu cael eu paru â'u cofnod CYBLD hyd yn oed os yw'r cofnod CYBLD yn bodoli.

Dim ond yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yr oedd gwybodaeth am amhariadau ar gael, ac nid oedd modd ei chynhyrchu ar gyfer dysgwyr chweched dosbarth. Byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd o greu mesur cyson ar draws dysgwyr chweched dosbarth a'r coleg.

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn erbyn pum agwedd ar ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymharedd a Chysondeb.

### Perthnasedd

Defnyddir y mesurau a nodir yn y cyhoeddiad hwn:

- gan Lywodraeth Cymru i fonitro perfformiad darparwyr ac fel gwybodaeth sylfaenol i osod targedau ar gyfer gwelliannau fel rhan o'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16;
- gan Estyn, er mwyn llywio dyfarniadau arolygu ar safonau; a
- chan ddarparwyr eu hunain, fel offeryn rheoli i fesur eu perfformiad eu hunain a meincnodi eu hunain yn erbyn cyfartaleddau'r sector, fel rhan o'u cylchoedd hunanasesu.

Defnyddir y mesurau hyn hefyd yn Llywodraeth Cymru a thu hwnt i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data sylfaenol ymhellach. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- gweinidogion a swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- Aelodau o'r Senedd ac ymchwilwyr yn y Senedd;
- adrannau eraill y llywodraeth;
- awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol;
- myfyrwyr, ymchwilwyr, ac academyddion;
- ysgolion a sefydliadau addysg bellach;
- dinasyddion, cwmnïau preifat, a'r cyfryngau.

### Cywirdeb

Mae'r ffigurau yn y datganiad hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa derfynol ar gyfer y flwyddyn academaidd yn y datganiad.

Cynhaliwyd cylch cymodi safonol yn 2021/22 ar gyfer colegau er mwyn gwella ansawdd y gwaith casglu data.

Dywedodd rhai ysgolion fod dysgwyr yn astudio Bagloriaeth Cymru neu'r Dystysgrif Her Sgiliau, ond nid y ddau. Ni ellir cymryd y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru ar wahân, felly yn y mesurau, tybiwyd bod dysgwyr a oedd yn astudio un yn astudio'r llall. Os oedd Bagloriaeth Cymru yn cael ei chwblhau, tybiwyd bod y Dystysgrif Her Sgiliau wedi'i chwblhau oherwydd ei bod yn elfen angenrheidiol o Fagloriaeth Cymru. Os oedd cofnod Bagloriaeth Cymru ar goll, tybiwyd bod y dysgwr wedi tynnu'n ôl.

Mae materion ansawdd data hysbys gyda'r mesurau galwedigaethol mewn chweched dosbarth ysgolion. Roedd cyfradd llwyddiant rhaglenni galwedigaethol chweched dosbarth ysgolion yn 33% yn 2022/23, ac mae wedi bod yn isel mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r cyrsiau sy'n cael eu

dechrau a’u cwblhau yn cael eu cofnodi gan ysgolion yn y casgliad data ôl-16, ac yna maent yn cael eu cyfateb i ganlyniadau graddau yng Nghronfa Ddata Arholiadau Cymru sy'n cynnwys data gan gyrff arholi. Mae yna lawer o achosion lle na ellir paru cyrsiau yn y casgliad data ôl-16 â Chronfa Ddata Arholiadau Cymru, ac i'r gwrthwyneb. Cysylltwyd ag ysgolion am achosion eithafol unigol, ac mae amrywiaeth o achosion wedi'u nodi. Mewn un achos, cofnododd ysgol ddysgwyr o dan hen god cwrs a oedd wedi cael ei ddisodli gan fath newydd o gwrs. Nid materion ansawdd data yw rhai achosion - roedd ysgol arall yn cofrestru dysgwyr ar gyrsiau nad oeddent yn debygol o'u cwblhau ond y credai'r ysgol y byddai o fudd i'r dysgwr o hyd. Mae chweched dosbarth ysgolion yn llai nag 1% o'r rhaglenni galwedigaethol a gymerir, ac mae'r effaith gyffredinol ar y mesurau yn fach iawn. Pe bai ysgolion yn cael eu heithrio o'r mesurau, ni fyddai cyfradd llwyddiant cyffredinol y rhaglen alwedigaethol yn newid yn 2022/23.

**Tabl 1: Gadael yn gynnar yn ôl mesur, a blwyddyn academaidd, 2021/22 a 2022/23**

| Mesur | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Rhaglenni addysg gyffredinol | 3% | 3% |
| Rhaglenni addysg alwedigaethol | 12% | 11% |
| Bagloriaeth Cymru | 5% | 5% |

Mae data i'w weld yn Nhabl 1.1, 2.1, 3.1 o'r daenlen ategol

Mae dysgwyr sy'n gadael rhaglen heb ei chwblhau o fewn yr 8 wythnos gyntaf, wedi'u heithrio o'r prif fesurau, ond yn cael eu hadrodd ar wahân. Roedd cyfradd gadael cynnar rhaglenni galwedigaethol yn llawer uwch na'r gyfradd gadael gynnar ar gyfer rhaglenni addysg gyffredinol.

### Amseroldeb a Phrydlondeb

Mae'r data yn y datganiad hwn yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2022/23 sy'n dod i ben ym mis Gorffennaf / Awst 2023. Mae'r data LLWR yn mynd drwy broses gysoni o fis Awst i fis Rhagfyr wedi i'r flwyddyn academaidd ddod i ben. Cymerwyd darlun terfynol o ddata LLWR ym mis Rhagfyr 2023. Cymerwyd y data terfynol ôl-16 ym mis Tachwedd 2023.

### Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cael ei gyhoeddi ymlaen llaw ac yna'n cael ei gyhoeddi yn yr adran Ystadegau ac Ymchwil ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddir y datganiad fel fformat hygyrch PDF (PDF/A), ochr yn ochr â thaenlen sydd ar gael mewn fformat data agored (ODS). Mae'r datganiad a'r daenlen yn dilyn canllawiau hygyrchedd.

### Cymharedd a chysondeb

Oherwydd y newidiadau yn y modd y dyfarnwyd graddau yn 2020 a 2021, a'r tarfu ar ddysgu a achoswyd gan y pandemig, ni wnaeth Llywodraeth Cymru lunio'i mesurau perfformiad arferol ar gyfer ysgolion na dysgu ôl-16 yn 2019/20 nac yn 2020/21. Yn hytrach, cynhyrchwyd adroddiadau arbennig ynghylch Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws. Mae’r ystadegau hynny'n cael eu cyfrifo gan ddefnyddio methodolegau gwahanol ac ni ellir eu cymharu â'r adroddiad hwn. Er enghraifft, cyfrifir y mesurau addysg gyffredinol ar sail blwyddyn.

Roedd 2021/22 a 2022/23 yn gyfnodau pontio i ddysgwyr. Roedd rhywfaint o gefnogaeth yn parhau i fod ar waith i ddysgwyr, ac ar gyfer cyrsiau addysg gyffredinol a rhai cyrsiau galwedigaethol. Cafodd dysgwyr ddewis ehangach o gwestiynau, a gosododd Cymwysterau Cymru ganlyniadau hanner ffordd yn fras rhwng 2018/19 a 2020/21. Dylid deall yr ystadegau ar gyfer y blynyddoedd hyn yn y cyd-destun hwnnw.

Nid ydym yn cynghori cymharu ystadegau blwyddyn academaidd 2016/17 â blynyddoedd diweddarach, oherwydd cafodd sawl darparwr eu gwahardd yn y flwyddyn gyntaf oherwydd problemau'n ymwneud ag ansawdd data. Mae ansawdd y data wedi gwella ers hynny, ac mae pob darparwr ôl-16 wedi'u cynnwys ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Gellir cymharu'r ddwy flynedd hyn, gan mai bach iawn oedd y newidiadau mewn methodoleg.

Cafodd Sgiliau Byw'n Annibynnol eu gwahardd yn y mesurau o raglenni galwedigaethol Lefel Mynediad yn 2018/19. Cafodd rhaglenni Atebion Creadigol eu heithrio cyn 2018/19.

Mae'r ystadegau hyn yn rhan o gyfres o fesurau cyson. Y mesurau eraill yw Gwerth Ychwanegol, a Chyrchfannau. Gyda'i gilydd, maent yn dangos darlun mwy cyflawn o ddeilliannau dysgwyr.

Mae cohort a methodoleg sylfaenol y mesurau cyflawniad cyson yn wahanol i fesurau perfformiad blaenorol, ac ni ellir eu cymharu.

Mae gan ddatganiad ystadegol Canlyniadau Arholiadau Llywodraeth Cymru ystadegau ar ddeilliannau Safon Uwch ar gyfer dysgwyr 17 oed mewn ysgolion. Nid oes modd cymharu'r rhain â'r mesurau cyflawniad hyn oherwydd y canlynol:

- mae canlyniadau'r arholiadau yn fesurau blwyddyn, tra bod y mesurau cyflawniad yn fesurau dwy flynedd sy'n edrych ar gynnydd dysgwyr o'u rhaglen UG
- mae'r canlyniadau arholiadau yn adrodd ar ddysgwyr 17 oed, tra bod mesurau cyflawniad yn adrodd ar ddysgwyr o bob oedran mewn addysg ôl-16
- mae canlyniadau'r arholiadau yn adrodd ar ysgolion yn unig, tra bod y mesurau cyflawniad yn adrodd ar ddysgwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

Roedd y mesurau deilliannau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn cynnwys yn flaenorol ystadegau ar ddeilliannau dysgwyr ar gyfer addysg bellach mewn sefydliadau addysg bellach. Nid oes modd cymharu'r ystadegau â'r mesurau cyflawniad, ond maent yn darparu cyfres amser ar ddeilliannau blaenorol dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae'r Adran Addysg yn cyhoeddi deilliannau canlyniadau Safon Uwch a chanlyniadau 16-18 eraill ar gyfer ysgolion yn ogystal â mesurau cyrchfan 16-18 sy'n cwmpasu'r cyrchfannau i gyflogaeth a dysgu, enillion a chynnydd dysgwyr.

## Datganiad cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Mae ein hymarfer ystadegol yn cael ei reoleiddio gan y Swyddfa. Hi sy'n gosod y safonau o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod y dylai pob cynhyrchydd ystadegau swyddogol gydymffurfio â nhw.

Caiff ein holl ystadegau eu llunio a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd yr ystadegau swyddogol hyn fel ystadegau arbrofol (a elwir bellach yn ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu) am bedair blynedd, gyda bwlch ychwanegol o ddwy flynedd oherwydd y pandemig. Roedd y statws yn adlewyrchu'r ffaith bod y fethodoleg ac ansawdd data yn cael eu datblygu'n barhaus ers iddynt gael eu creu.

Eleni fe'u cyhoeddwyd fel ystadegau swyddogol, heb y label arbrofol / mewn datblygiad. Mae hyn yn adlewyrchu'r aeddfedu a sefydlwyd trwy gylchoedd cyhoeddi dro ar ôl tro.

Mae'r safonau a ddisgwylir ynghylch dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus wedi cael eu dangos a'u gwella yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Datblygwyd y mesurau gan ystadegwyr proffesiynol o'r dechrau'n deg yn ôl datganiad cydymffurfio Llywodraeth Cymru. Caiff dyddiadau rhyddhau eu cyhoeddi ymlaen llaw, a dilynir protocolau ynghylch cyfrinachedd data.

O bryd i'w gilydd, gall diwygiadau ddigwydd oherwydd camgymeriadau yn ein prosesau ystadegol neu pan fydd cyflenwr data yn hysbysu Llywodraeth Cymru ei fod wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir. Yn yr achosion hyn, gwneir penderfyniad ynghylch a yw'r newid yn ddigon sylweddol i gyhoeddi datganiad ystadegol diwygiedig. Lle na ystyrir bod newidiadau'n arwyddocaol, bydd ffigurau'n cael eu cywiro os ydynt yn ymddangos mewn datganiadau yn y dyfodol.

### Ansawdd

Mae proses ddilysu ar gyfer data sy'n cael eu casglu. Mae proses gymodi ychwanegol ar gyfer data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Mae'r mesurau'n cael eu creu o god trwy fethodoleg sydd wedi'i gwella a'i dilysu dros y blynyddoedd. Mae gwiriadau awtomataidd yn cael eu cynnwys yn y cod. Pan fydd y mesurau wedi'u cynhyrchu, caiff yr adroddiad terfynol ei ysgrifennu a'i wirio gan ystadegwyr.

Bob blwyddyn, mae darparwyr dysgu yn derbyn adroddiad mesurau cyflawniad ar gyfer eu data eu hunain, gan gynnwys gwybodaeth am sut yn union y cyfrifwyd y mesurau gan amlygu materion posibl o ran ansawdd data. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddarparwyr amlygu a chodi materion.

Anfonir nodiadau esboniadol at bob darparwr bob blwyddyn academaidd, gan roi arweiniad ar sut mae'r mesurau'n cael eu creu ac egluro unrhyw newidiadau i'r fethodoleg y flwyddyn honno.

Yn 2021/22, derbyniodd colegau y cod a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r mesurau, gan roi'r cyfle iddynt feirniadu'r fethodoleg yn uniongyrchol. Rydym yn bwriadu ehangu hyn i gyhoeddi'r cod i bawb yn y dyfodol.

Mae'r prosesau hyn a gwaith arall wedi arwain at y gwelliannau canlynol o ran ansawdd:

- Mae'r canllawiau casglu data a'r rheolau dilysu sy'n cyd-fynd â'r casglu data wedi'u gwella, gan arwain at ddata o ansawdd uwch.

- Gwnaed newidiadau i gasgliadau data'r chweched dosbarth a'r coleg i gysoni eu canlyniadau ymhellach.
- Mae'r ffordd o ymdrin â materion casglu data Bagloriaeth Cymru wedi cael ei gryfhau, gan gynnwys proses gymodi a system ar gyfer delio'n well â chofnodion anghyflawn.
- Datblygwyd dull gweithredu ar gyfer cymwysterau aml-faes llafur, lle gall dysgwr ennill cymwysterau lluosog o fewn un cod dysgu (er enghraifft TAG Celf a Dylunio).
- Mae system wedi'i rhoi ar waith i wirio bod y radd a gofnodwyd ar gyfer dysgwr yn cyfateb i'r deilliannau gradd sy'n bosibl ar gyfer y cymhwyster.
- Crëwyd dull gweithredu i gael gwared ar drosglwyddiadau rhaglenni o'r mesurau, ar yr amod bod modd gweld bod y dysgwr wedi symud ymlaen i raglen ddilys.

## Gwerth

Datblygwyd y mesurau gyda chymorth grŵp technegol rheolaidd gyda chynrychiolwyr o golegau, chweched dosbarth, awdurdodau lleol ac Estyn. Mae eu hadborth wedi arwain at newidiadau i'r fethodoleg, ac ehangu'r mesurau i gwmpasu mwy o agweddau ar ddysgu ôl-16.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Mesurau Perfformiad Cyson ar gyfer dysgu ôl-16 yn 2017 i bobl roi eu mewnbwn ar yr egwyddorion a manylion y mesurau.

Gwnaed y newidiadau canlynol i wella gwerth yr ystadegau ers i'r mesurau gael eu cyhoeddi gyntaf yn 2018:

- Cafodd mesurau'r cwrs Safon Uwch eu hailwampio i fod yn fesurau dwy flynedd gyda gwybodaeth am gwblhau a chadw.
- Crëwyd mesurau ar gyfer cyrsiau ar wahân i Safon Uwch, sy'n cyfrif am yr amrywiaeth eang o strwythurau gradd posibl.
- Ehangwyd mesurau'r rhaglen alwedigaethol i gynnwys dysgu mewn chweched dosbarth ysgolion.
- Mae data demograffig ychwanegol wedi'u hychwanegu ynghylch rhywedd, cefndir ethnig, awdurdod lleol y cartref, amddifadedd cymdogaeth y cartref, a statws cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol uwchradd, ynghyd â gwybodaeth am ddysgwyr ag amhariadau mewn data sy'n ymwneud â cholegau.
- Estynnwyd deilliannau graddau Safon Uwch Estynedig i'r ystod lawn (A* i E) yn hytrach na A, C ac E yn unig.

## Gwaith ar gyfer y dyfodol

Er nad yw'r ystadegau hyn bellach wedi'u labelu fel rhai arbrofol / sy'n cael eu datblygu, byddwn yn parhau i wella'r mesurau.

Rydym yn bwriadu edrych i weld sut y caiff trosglwyddiadau eu trin ar lefel cyrsiau yn y dyfodol, a gwyddom am rai materion ansawdd data sy'n codi o ran sut mae data galwedigaethol chweched dosbarth ysgolion yn cael eu cofnodi (gweler yr adran Cywirdeb).

Mae croeso ichi gysylltu â ni yn uniongyrchol os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch sut rydym yn bodloni'r safonau hyn. Gellir darparu'r adborth drwy e-bost i ystadegauaddysgol16@llyw.cymru. Fel arall, gallwch gysylltu â'r Swyddfa drwy e-bostio regulation@statistics.gov.uk neu drwy fynd i'w gwefan.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Diben y rhain yw sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n rhaid eu defnyddio i fesur y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r nodau Llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn adolygu'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Cafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn eu gosod gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn hefyd roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

### Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen a'r tablau ategol ar gael yn: Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyflawniad).

Mae gwybodaeth gefndirol am fesurau cyson ôl-16 ar gael ar wefan Hwb

### Diweddariad nesaf

Chwefror neu Mawrth 2025 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023/24. Disgwylir i'r diweddariad nesaf i'r datganiad hwn gael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Bydd y Comisiwn yn gorff hyd braich newydd a fydd yn gyfrifol am ariannu a goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16 o fis Awst 2024.

### Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. E-bostiwch yr adborth i: ystadegauaddysgol16@llyw.cymru

### Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, oni nodir fel arall.

OGL